



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2001 Rhif 2983 (Cy. 250 )**

**2001 No. 2983 (W. 250 )**

**LANDLORD A THENANT,  
CYMRU**

**LANDLORD AND TENANT,  
WALES**

**Gorchymyn Daliadau Amaethyddol  
(Unedau Cynhyrchu) (Cymru)  
(Rhif 2) 2001**

**The Agricultural Holdings (Units  
of Production) (Wales) (No.2)  
Order 2001**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchiol tir amaethyddol a leolir yng Nghymru ac yn nodi'r swm a fernir yn incwm blynyddol net gan bob uned o'r fath ar gyfer y flwyddyn 12 Medi 2000 hyd 11 Medi 2001 yn gynhwysol.

This Order prescribes units of production for the assessment of the productive capacity of agricultural land situated in Wales and sets out the amount which is to be regarded as the net annual income from each such unit for the year 12th September 2000 to 11th September 2001 inclusive.

Mae gofyn cael asesiad o gynhwysedd cynhyrchiol y tir amaethyddol i benderfynu a yw'r tir dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" at ddibenion darpariaethau olynu yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986: gweler adrannau 36(3) a 50(2) yn arbennig. Mae "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn dir sydd, pan gaiff ei ffermio o dan reolaeth gymwys, â'r gallu i gynhyrchu incwm blynyddol net nad yw'n llai na chyfanswm enillion blynyddol cyfartalog dau weithiwr amaethyddol gwrywaidd amser-llawn ugain oed neu drosodd (paragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986). Wrth benderfynu'r ffigur incwm blynyddol hwn, ni ddefnyddir o reidrwydd naill ai'r system ffermio a weithredir ar ddaliad penodol na data hanesyddol o'r daliad hwnnw. Yn hytrach, pryd bynnag y bydd defnydd ffermio penodol a grybwyllir yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r penderfyniad hwn, yr unedau cynhyrchu a'r incwm blynyddol net a bennir yng ngholofnau 2 a 3 yn ôl eu trefn fydd y sail ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchiol y tir dan sylw.

An assessment of the productive capacity of agricultural land is required in determining whether or not the land in question is a "commercial unit of agricultural land" for the purposes of the succession provisions in the Agricultural Holdings Act 1986: see in particular sections 36(3) and 50(2). A "commercial unit of agricultural land" is land which, when farmed under competent management, is capable of producing a net annual income which is not less than the aggregate of the average annual earnings of two full-time male agricultural workers aged 20 years or over (paragraph 3 of Schedule 6 to the 1986 Act). In determining this annual income figure, neither the system of farming carried out on a particular holding nor historical data from that holding will necessarily be used. Instead, whenever a particular farming use mentioned in column 1 of the Schedule to this Order is relevant to this determination, the units of production and the net annual income specified in columns 2 and 3 respectively will form the basis of the assessment of the productive capacity of the land in question.

Mae'r ffigurau incwm blynyddol net yng ngholofn 3 o'r Atodlen yn nodi'r incwm blynyddol net o un uned cynhyrchu. Mewn rhai achosion bydd yr incwm

The net annual income figures in column 3 of the Schedule specify the net annual income from one unit of production. In some cases the net annual income is

blynyddol net yn deillio o uned a fydd ar y tir am y cyfnod llawn o ddeuddeng mis. Mewn achosion eraill bydd yr incwm blynyddol net yn deillio o uned a fydd ar y tir am ran o'r flwyddyn yn unig, a gall y bydd mwy nag un gylchred gynhyrchu yn y cyfnod o ddeuddeng mis. Bydd yr asesiad o gynhwysedd cynhyrchu'r tir yn cymryd i ystyriaeth yr holl gynhyrchu yn ystod blwyddyn.

derived from a unit which will be on the land for the full twelve-month period. In other cases the net annual income is derived from a unit which will be on the land for only part of the year, and there may be more than one production cycle in the twelve-month period. The assessment of the productive capacity of the land will take account of the total production in the course of a year.

2001 Rhif 2983 (Cy. 250 )

2001 No. 2983 (W. 250 )

LANDLORD A THENANT,  
CYMRULANDLORD AND TENANT,  
WALESGorchymyn Daliadau Amaethyddol  
(Unedau Cynhyrchu) (Cymru)  
(Rhif 2) 2001The Agricultural Holdings (Units  
of Production) (Wales) (No.2)  
Order 2001

*Wedi'i wneud* 29 Awst 2001  
*Yn dod i rym* 31 Awst 2001

*Made* 29th August 2001  
*Coming into force* 31st August 2001

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986(a), ac a freiniwyd ynddo bellach, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(b) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

In exercise of the powers conferred by paragraph 4 of Schedule 6 to the Agricultural Holdings Act 1986(a), which are now vested in it, the National Assembly for Wales(b) hereby makes the following Order:-

**Teitl, cychwyn a dehongli****Title, commencement and interpretation**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2001 a daw i rym ar 31 Awst 2001.

1.-(1) This Order may be cited as the Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales)(No.2) Order 2001 and shall come into force on 31st August 2001.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at "yr Atodlen" yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Any reference in this Order to "the Schedule" is a reference to the Schedule to this Order.

(3) unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at offeryn y Gymuned Ewropeaidd yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw ac unrhyw ddiwygiad i'r cyfryw offeryn sydd mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

(3) Any reference in this Order to a Community instrument is a reference to that instrument and any amendment of such instrument in force on the date this Order is made.

(4) Yn y Gorchymyn hwn

(4) In this Order:

ystyr "Rheoliad 2467/98 y Cyngor" ("*Council Regulation 2467/98*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2467/98 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig dafad a chig gafr(c);

"Council Regulation 2467/98" ("*Rheoliad 2467/98 y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No. 2467/98 on the common organisation of the market in sheepmeat and goatmeat(c);

ystyr "Rheoliad 1251/99 y Cyngor" ("*Council Regulation 1251/99*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1251/99 y Cyngor sy'n sefydlu system gynnal i gynhyrchwyr cynydau âr penodol(ch);

"Council Regulation 1251/99" ("*Rheoliad 1251/99 y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No. 1251/99 establishing a support system for producers of certain arable crops(d);

(a) 1986 p.5.

(a) 1986 c.5.

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(O.S.1999/672), trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan baragraff 4 o Atodlen 6 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672), the functions of the Secretary of State for Wales under paragraph 4 of Schedule 6 to the Agricultural Holdings Act 1986, were, so far as they were exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales.

(c) OJ Rhif L312, 20.11.98, t.1.

(c) OJ No. L312, 20.11.98, p.1.

(ch) OJ Rhif L160, 26.6.99, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2704/1999 (OJ Rhif L327, 21.12.99, t.12).

(d) OJ No. L160, 26.6.99, p.1, as last amended by Council Regulation (EC) No.2704 / 1999 (OJ No. L327, 21.12.99, p.12).

ystyr "Rheoliad 1254/99 y Cyngor" ("*Council Regulation 1254/99*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1254/99 y Cyngor ar drefniadaeth gyffredin y farchnad mewn cig eidion a chig llo(a).

"Council Regulation 1254/99" ("*Rheoliad 1254/99 y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No. 1254/99 on the common organisation of the market in beef and veal(a).

### Aseiad o gynhwysedd cynhyrchiol y tir

2. -(1) Mae paragraffau (2) a (3) o'r erthygl hon yn cael effaith at ddibenion asesu cynhwysedd cynhyrchiol uned o dir amaethyddol a leolir yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw'r uned honno'n uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn ystyr is-baragraff (1) o baragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Pan ellir defnyddio'r tir dan sylw, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd, ffrwythau, etc., fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 7 yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yna -

- (a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o dir, a
- (b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fydd y swm a benderfynir am y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda 12 Medi 2000 fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(3) Pan ellir defnyddio tir, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu incwm blynyddol net a phan ddynodir hwnnw fel neilltir, fel a grybwyllir yng nghofnod 8 yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yna -

- (a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a
- (b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fydd y swm a benderfynir am y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda 12 Medi 2000 fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(4) Mae'r Atodlen yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r Nodiadau i'r Atodlen.

### Assessment of productive capacity of land

2. -(1) Paragraphs (2) and (3) of this article have effect for the purpose of the assessment of the productive capacity of a unit of agricultural land situated in Wales, in order to determine whether that unit is a commercial unit of agricultural land within the meaning of sub-paragraph (1) of paragraph 3 of Schedule 6 to the Agricultural Holdings Act 1986.

(2) Where the land in question is capable, when farmed under competent management, of being used to produce any livestock, crop, fruit or miscellaneous product, as is mentioned in any of the entries 1 to 7 in column 1 of the Schedule, then -

- (a) the unit of production prescribed in relation to that use of the land shall be the unit specified in column 2 of the Schedule opposite to that entry, and
- (b) the amount determined, for the period of 12 months beginning with 12th September 2000, as the net annual income from that unit of production in that period shall be the amount specified in column 3 of the Schedule opposite that unit of production.

(3) Where land capable, when farmed under competent management, of producing a net annual income is designated as set aside land, as is mentioned in entry 8 in column 1 of the Schedule, then -

- (a) the unit of production prescribed in relation to that use of the land shall be the unit specified in column 2 of the Schedule opposite to that entry, and
- (b) the amount determined, for the period of 12 months beginning with 12th September 2000, as the net annual income from that unit of production in that period shall be the amount specified in column 3 of the Schedule opposite that unit of production.

(4) The Schedule has effect subject to the Notes to the Schedule.

---

(a) OJ Rhif L160, 26.6.99, t.21.

---

(a) OJ No. L160, 26.6.99, p.21.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

29 Awst 2001

29th August 2001

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

## SCHEDULE

Articles 1(2) and 2

### PRESCRIBED UNITS OF PRODUCTION AND DETERMINATION OF NET ANNUAL INCOME

<i>Column 1</i> <i>Farming use</i>	<i>Column 2</i> <i>Unit of production</i>	<i>Column 3</i> <i>Net annual income from unit of production £</i>
<b>1. Livestock</b>		
Dairy cows:		
Channel Islands breeds	cow	250
Other breeds	cow	308
Beef breeding cows:		
On eligible land under the Hill Livestock (Compensatory Allowances) Regulations 1996(a)	cow	52(1)
On other land	cow	43(1)
Beef fattening cattle (semi-intensive)	head	45(2)
Dairy replacements	head	30(3)
Ewes:		
On eligible land under the Hill Livestock (Compensatory Allowances) Regulations 1996	ewe	16(4)
On other land	ewe	18(5)
Store lambs (including ewe lambs sold as shearlings)	head	0.87
Pigs:		
Sows and gilts in pig	sow or gilt	70
Porker	head	1.60
Cutter	head	2.90
Bacon	head	4.10
Poultry:		
Laying hens	bird	0.90
Broilers	bird	0.10
Point-of-lay pullets	bird	0.20
Christmas turkeys	bird	1.44
<b>2. Farm arable crops</b>		
Barley	hectare	112(6)
Beans	hectare	113(7)
Herbage seed	hectare	155
Linseed	hectare	62(8)
Oats	hectare	137(9)
Oilseed rape	hectare	121(10)

(a) S.I. 1996/1500, as amended by S.I. 1997/33, S.I. 1998/206, S.I. 1999 /375 and S.I. 1999 / 3316.

Peas:		
Dried	hectare	143(11)
Vining	hectare	237
Potatoes:		
First early	hectare	675
Maincrop (including seed)	hectare	705
Sugar Beet	hectare	288
Wheat	hectare	179(12)

### 3. Outdoor horticultural crops

Broad beans	hectare	391
Brussels sprouts	hectare	1525
Cabbage, savoys and sprouting broccoli	hectare	1665
Carrots	hectare	2385
Cauliflower and winter broccoli	hectare	1040
Celery	hectare	7545
Leeks	hectare	3070
Lettuce	hectare	3950
Onions:		
Dry bulb	hectare	1305
Salad	hectare	4263
Outdoor bulbs	hectare	1682
Parsnips	hectare	2591
Rhubarb (natural)	hectare	3750
Turnips and swedes	hectare	1400

### 4. Protected crops

Forced narcissi	1000 square metres	7225
Forced tulips	1000 square metres	6790

### 5. Orchard fruit

Apples:		
Cider	hectare	495
Cooking	hectare	1275
Dessert	hectare	1360
Cherries	hectare	1085
Pears	hectare	1140
Plums	hectare	1180

### 6. Soft fruit

Blackcurrants	hectare	840
---------------	---------	-----

Raspberries	hectare	2865
Strawberries	hectare	3760
<b>7. Miscellaneous</b>		
Hops	hectare	1850
<b>8. Set-aside(1)</b>	hectare	26

## NOTES TO THE SCHEDULE

Article 2(4)

### Note to column

(1) For the marketing year 2000 / 2001 this refers to land which is set-aside under Article 2(3) of Council Regulation 1251/99, except where such land is used (in accordance with Article 6(3) of Council Regulation 1251/99) for the provision of materials for the manufacture within the Community of products not primarily intended for human or animal consumption.

### Notes to column 3

(1) Deduct £102 from this figure in the case of animals for which the net annual income does not include a sum in respect of the premium for maintaining suckler cows (suckler cow premium) provided for in Article 6 of Council Regulation 1254/99.

Add £23 to the figure in column 3 in the case of animals for which the net annual income includes a sum in respect of the lower rate of extensification premium provided for in Article 13 of Council Regulation 1254/99.

Add £45 to the figure in column 3 in the case of animals for which the net annual income includes a sum in respect of the higher rate of extensification premium provided for in Article 13 of Council Regulation 1254/99.

(2) This is the figure for animals which are kept for 12 months.

Deduct £83 in the case of animals which are kept for 12 months and for which the net annual income does not include a sum in respect of the special premium for holding male bovine animals (beef special premium) provided for in Article 4 of Council Regulation 1254/99.

Add £23 to the figure in column 3 in the case of animals which are kept for 12 months and for which the net annual income includes a sum in respect of the lower rate of extensification premium.

Add £45 to the figure in column 3 in the case of animals which would be kept for that period and for which the net annual income includes a sum in respect of the higher rate of extensification premium.

In the case of animals which are kept for less than 12 months and for which the net annual income does not include a sum in respect of beef special premium, the net annual income is to be calculated by deducting £83 from the figure in column 3 and then making a pro rata adjustment of the resulting figure.

In the case of animals which are kept for less than 12 months and for which the net annual income includes a sum in respect of beef special premium, the net annual income is to be calculated by first deducting £83 from the figure in column 3, then making a pro rata adjustment of the resulting figure, then adding to that figure the sum of £83 and (where the net annual income includes a sum in respect of extensification premium) the sum of £23 (where the extensification premium is paid at the lower rate) or £45 (where the extensification premium is paid at the higher rate).

(3) This indicates the figure for animals (irrespective of age) which are kept for 12 months. In the case of animals which are kept for less than 12 months a pro rata adjustment of this figure is to be made.

(4) Deduct £16 from this figure in the case of animals for which the net annual income does not include a sum in respect of the premium for offsetting income loss sustained by sheep meat producers (sheep annual premium) provided for in Article 5 of Council Regulation 2467/98.

(5) Deduct £12 from this figure in the case of animals for which the net annual income does not include a sum in respect of sheep annual premium.

(6) Deduct £216 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in



respect of the compensatory payment for which producers of arable crops may apply (area payment) provided for in Article 2 of Council Regulation 1251/99.

(7) Deduct £268 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in respect of area payment.

(8) Deduct £326 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in respect of area payment.

(9) Deduct £216 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in respect of area payment.

(10) Deduct £309 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in respect of area payment.

(11) Deduct £268 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in respect of area payment.

(12) Deduct £217 from this figure in the case of land for which the net annual income does not include a sum in respect of area payment.

## ATODLEN

Erthyglau 1(2) a 2

### RHAGNODI UNEDAU CYNHYRCHU A PHENDERFYNU INCWM BLYNYDDOL NET

<i>Colofn 1</i> <i>Defnydd ffermio</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Uned gynhyrchu</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Incwm blynyddol net gan uned gynhyrchu £</i>
<b>1. Da byw</b>		
Buchod llaeth:		
Bridiau Ynysoedd y Sianel	buwch	250
Bridiau eraill	buwch	308
Buchod bridio cig eidion:		
Ar dir cymwys o dan Reoliadau Da Byw Tir Uchel (Lwfansau Iawndal) 1996(a)	buwch	52(1)
Ar dir arall	buwch	43(1)
Gwartheg pesgi cig eidion (lled arddwys)	pen	45(2)
Buchod llaeth i lenwi bylchau	pen	30(3)
Mamogiaid:		
Ar dir cymwys o dan Reoliadau Da Byw Tir Uchel (Lwfansau Iawndal) 1996	mamog	16(4)
Ar dir arall	mamog	18(5)
Ŵyn stôr (gan gynnwys ŵyn benyw a werthir fel hesbinod blwydd)	pen	0.87
Moch:		
Hychod a banwesi torrog	hwch neu fanwes	70
Moch porc	pen	1.60
Moch torri	pen	2.90
Moch bacwn	pen	4.10
Dofednod:		
Ieir dodwy	aderyn	0.90
Brwyliaid	aderyn	0.10
Cywennod ar ddodwy	aderyn	0.20
Tyrcwn	aderyn	1.44
<b>2. Cnydau â'r fferm</b>		
Haidd	hectar	112(6)
Ffa	hectar	113(7)
Had glaswellt	hectar	155
Had llin	hectar	62(8)
Ceirch	hectar	137(9)

(a) O.S. 1996/1500, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/33, O.S. 1998/206 ac O.S. 1999 /375.

Rêp had olew	hectar	121(10)
Pys:		
Sych	hectar	143(11)
Dringo	hectar	237
Tatws:		
Cynnar cyntaf	hectar	675
Prif gnwd (gan gynnwys hadau)	hectar	705
Betys siwgr	hectar	288
Gwenith	hectar	179(12)

### 3. Cnydau garddwriaethol awyr agored

Ffa cyffredin	hectar	391
Ysgewyll Brwsel	hectar	1525
Bresych, safwy a brocoli blaguro	hectar	1665
Moron	hectar	2385
Blodfresych a brocoli'r gaeaf	hectar	1040
Seleri	hectar	7545
Cennin	hectar	3070
Letys	hectar	3950
Wynwns:		
Bylbiau sych	hectar	1305
Salad	hectar	4263
Bylbiau awyr agored	hectar	1682
Pannas	hectar	2591
Riwbob (naturiol)	hectar	3750
Maip a swêds	hectar	1400

### 4. Cnydau gwarchoddedig

Narsisi gorfod	1000 metr sgwâr	7225
Tiwlipau gorfod	1000 metr	6790

### 5. Ffrwythau'r berllan

Afalau:		
Seidr	hectar	495
Coginio	hectar	1275
Melys	hectar	1360
Ceirios	hectar	1085
Gellyg	hectar	1140
Eirin	hectar	1180

### 6. Ffrwythau meddal

Cyrens Duon	hectar	840
Mafon	hectar	2865
Mefus	hectar	3760
<b>7. Amrywiol</b>		
Hopys	hectar	1850
<b>8. Neilltir(1)</b>	hectar	26

## NODIADAU I'R ATODLEN

Erthygl 2(4)

### Nodyn i golofn 1

(1) Ar gyfer y flwyddyn farchnata 2000/2001 mae hyn yn cyfeirio at dir sydd wedi'i neilltuo o dan Erthygl 2(3) o Reoliad 1251/99 y Cyngor, ac eithrio pan ddefnyddir tir felly (yn unol ag Erthygl 6(3) o Reoliad 1251/99 y Cyngor) ar gyfer darparu deunyddiau at weithgynhyrchu cynhyrchion o fewn y Gymuned na fwriedir iddynt yn anad dim gael eu bwyta gan bobl neu anifeiliaid.

### Nodiadau i golofn 3

(1) Didynner £102 o'r ffigur hwn yn achos anifeiliaid nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm at gynnal buchod sugno (premiwm buchod sugno) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 6 o Reoliad 1254/99 y Cyngor.

Ychwaneger £23 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa is y premiwm anarddwysáu y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 13 o Reoliad 1254/99 y Cyngor.

Ychwaneger £45 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa uwch y premiwm anarddwysáu y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 13 o Reoliad 1254/99 y Cyngor.

(2) Dyma'r ffigur ar gyfer anifeiliaid a gedwir am 12 mis.

Didynner £83 yn achos anifeiliaid a gedwir am 12 mis nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm arbennig dros gadw anifeiliaid buchod gwryw (premiwm arbennig cig eidion) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 4 o Reoliad 1254/99 y Cyngor.

Ychwaneger £23 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid a gedwir am 12 mis y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa is y premiwm anarddwysáu.

Ychwaneger £45 at y ffigur yng ngholofn 3 yn achos anifeiliaid a fyddai'n cael eu cadw am y cyfnod hwnnw ac y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â graddfa uwch y premiwm anarddwysáu.

Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis ac nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm arbennig cig eidion, cyfrifir yr incwm blynyddol net drwy ddidynnu £83 o'r ffigur yng ngholofn 3 ac wedyn gwneud addasiad pro rata o'r ffigur canlyniadol.

Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis ac y mae'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm arbennig cig eidion, cyfrifir yr incwm blynyddol net i ddechrau drwy ddidynnu £83 o'r ffigur yng ngholofn 3, wedyn gwneud addasiad pro rata o'r ffigur canlyniadol, wedyn ychwanegu at y ffigur hwnnw y swm o £83 ac (lle mae'r incwm blynyddol net yn cynnwys swm ynglŷn â phremiwm anarddwysáu estyniad) y swm o £23 (lle telir y premiwm anarddwysáu estyniad ar y raddfa is) neu £45 (lle telir y premiwm anarddwysáu estyniad ar y raddfa uwch).

(3) Mae hwn yn dangos y ffigur ar gyfer anifeiliaid (gan anwybyddu oedran) a gedwir am 12 mis. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata i'r ffigur hwn.

(4) Didynner £16 o'r ffigur hwn yn achos anifeiliaid nad yw'r incwm blynyddol net ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm ar gyfer gwrthbwyso colli incwm gan gynhyrchwyr cig defaid (premiwm blynyddol defaid) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 5 o Reoliad 2467/98 y Cyngor.

(5) Didynner £12 o'r ffigur hwn yn achos anifeiliaid nad yw'r incwm blynyddol ar eu cyfer yn cynnwys swm ynglŷn â'r premiwm defaid blynyddol.

(6) Didynner £216 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â iawndal y gall cynhyrchwyr cynydu â'r wneud cais amdano (taliad arwynebedd) y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 2 o Reoliad 1251/99 y Cyngor.

(7) Didynner £268 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

(8) Didynner £326 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.

- (9) Didynner £216 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.
- (10) Didynner £309 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.
- (11) Didynner £268 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.
- (12) Didynner £217 o'r ffigur hwn yn achos tir nad yw'r incwm blynyddol net ar ei gyfer yn cynnwys swm ynglŷn â thaliad arwynebedd.



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif 2983 (Cy. 250 )**

**LANDLORD A THENANT,  
CYMRU**

Gorchymyn Daliadau Amaethyddol  
(Unedau Cynhyrchu) (Cymru)  
(Rhif 2) 2001

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2001 No. 2983 (W. 250 )**

**LANDLORD AND TENANT,  
WALES**

The Agricultural Holdings (Units  
of Production) (Wales) (No.2)  
Order 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**

W377/12/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090382-X



9 780110 903828